

2016 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol
Gwasanaethau Cymdeithasol
Awdurdodau Lleol (Ffurf
Ragnodedig) (Cymru) 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mewnosodwyd adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan adran 56 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod.

Mae adran 144A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol fod ar ffurf a ragnodir drwy reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi ffurf yr adroddiad blynyddol. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol fod ar ffurf y templed sy'n ymddangos ar y dudalen berthnasol o wefan Llywodraeth Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

NEU

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2016 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol
Gwasanaethau Cymdeithasol
Awdurdodau Lleol (Ffurf
Ragnodedig) (Cymru) 2016**

Gwnaed ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 144A(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “adroddiad blynyddol” (“*annual report*”) yw'r adroddiad y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei lunio a'i gyhoeddi yn unol ag adran 144A o'r Ddeddf;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

(1) 2014 dccc 4.

Ffurf yr adroddiad blynyddol

3. Rhaid i adroddiad blynyddol fod ar ffurf y templed sy'n ymddangos ar y dudalen berthnasol o wefan Llywodraeth Cymru a sefydlir at ddiben hysbysu awdurdodau lleol am y gofynion ar gyfer llunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol.

Enw

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

DRAFT